

Gwers 30 – Y Storm Fawr

Nodiadau Cefndir i'r Athro

Marc 4:35–41

Y mae'r Efengyl yn ôl Marc yn canolbwyntio ar weinidogaeth Iesu. Nid oes manylion am eni na magwraeth Iesu. Geiriau cyntaf Marc yw 'Dechrau Efengyl Iesu Grist, Mab Duw' (Marc 1:1), ac yna dyfynna'r proffwyd Eiseia; byddai Duw yn anfon cennad i baratoi ffordd yr Arglwydd (Eiseia 40:3). Ioan Fedyddiwr oedd y cennad, ac erbyn diwedd y bennod gyntaf y mae Iesu wedi ei fedyddio a dechrau ar ei weinidogaeth yng Ngâlilea, dechrau galw disgyblion, pregethu ac iacháu.

Roedd gweinidogaeth Iesu yn un gyfannol, hynny yw, yn cyffwrdd â bywyd yn ei gyfanrwydd. Daeth i ddysgu am Dduw, ond yr oedd yn fwy nag athro. Daeth i fwrw allan gythreuliaid, ond yr oedd yn fwy na bwriwr cythreuliaid. Daeth i iacháu pobl, ond roedd yn fwy na meddyg. Daeth i ryddhau caethion, ond roedd yn fwy na chwyldröwr. Daeth i fwydo'r newynog, dilladu'r noeth, ond roedd yn fwy na gweithiwr cymdeithasol. Duw oedd ef, a golygai hynny ei fod yn ymwneud â'r bywyd dynol yn ei gyfanrwydd.

O gofio fod Iesu'n treulio oriau yng nghwmni pobl, nid yw'n syndod ei fod yn blino a'i fod wedi penderfynu mynd drosodd i'r ochr draw ac wedi syrthio i gysgu yn starn y cwch. Mae'n rhaid ei bod yn storm gref – gyda thonnau'n torri dros y cwch – oherwydd, er eu holl ymdrechion i wagio'r dŵr o'r cwch y mae'r pysgotwyr profiadol hyn yn credu ei bod ar ben arnynt.

Cyn y digwyddiad hwn gwelodd y disgyblion Iesu yn dangos ei hun yn awdurdod dros gythreuliaid (Marc 3:20–30), yn iacháu llawer (Marc 1:29–34; 2:1–12); yn pregethu (Marc 1:35–39). Clywsant y bobl yn dweud 'Beth yw hyn? Dyma ddysgeidiaeth newydd ac iddi awdurdod!' (Marc 1:27).


Er hynny, nid ydynt yn dangos llawer o ffydd oherwydd er i Iesu ddweud eu bod yn mynd i'r ochr draw roeddent yn amau a fuasant yn cyrraedd oherwydd y storm. Mae'r digwyddiad hwn yn brawf ar ffydd y disgyblion ac yn rhan o'u hyfforddiant ar gyfer y dyfodol. Synnwyd hwythau o weld ei awdurdod ar, hyd yn oed y tonnau cryfion, 'Pwy ynteu yw hwn? Y mae hyd yn oed y gwynt a'r môr yn ufuddhau iddo.' (Marc 4:41).

Môr Galilea

Amgylchynid Môr Galilea gan fryniau (Golan) ac i'r gogledd yr oedd mynyddoedd, gyda chopa mynydd Hermon tua 9000 troedfedd. Y mae'r môr hefyd yn agos i 700 troedfedd islaw lefel y môr. Oherwydd y lleoliad daearyddol hwn, roedd stormydd yn ddigwyddiadau cyffredin. Bydd haul poeth yr haf yn achosi i'r dŵr anweddu, a phan ddaw awyr oeraidd Môr y Canoldir i gyfarfod â'r llif gynnes o Fôr Galilea, creir terfysg a chyfyd storm. Gweler hefyd Gwers 26.

Trefi pysgota Galilea

Y mae saith o'r trefi sy'n amlwg yng ngweinidogaeth Iesu naill ai ar lan y môr neu heb fod ymhell i ffwrdd – Capernaum, Bethseida, Corasin, Gennesaret, Magdala, Tiberias a Gadara. Tiberias yn unig sy'n aros heddiw – a'r ffordd orau i deithio rhyngddynt oedd drwy groesi'r môr.



Mae Iesu a'i ddisgyblion yn hwylio ar y llyn. Mae Iesu'n dweud wrth y storm am dawelu.

Ydi'r disgyblion yn ofnus? Darllen Marc 4:39-41 i ganfod yr ateb.

Sawl banana weli di yn cuddio yn y llun?

Gwers 30 – Y storm fawr

lesu'n tawelu'r storm | Marc 4:35–41

Beibl Gweithgaredd y Plant / Lleiaf tud. 128



Gwers 30

Y Storm Fawr

BEIBL GWEITHGAREDD Y PLANT DAN /DROS 7 oed

Y Storm Fawr tud 128

BEIBL LLIW STORI DUW

Y storm ar lyn Galilea tud 238

BEIBL BACH STORI DUW

Capten y Storm tud 236

BEIBL NEWYDD Y STORIWR

Y Storm ar y llyn tud 98

BEIBL LLIW Y PLANT

lesu'n tawelu'r Storm tud 220

BEIBL NEWYDD Y PLANT

lesu'n tawelu'r storm tud 163

BEIBL BACH I BLANT

Storm ofnadwy tud 330

Y BEIBL I BLANT MEWN 365 STORIÄU

Y Storm ar y llyn tud 312

I Ddechrau

Cysgu yn y cwch

Mae'r plant yn eistedd mewn cylch ar y llawr mewn siâp "cwch" gydag un person yn "cysgu" yn y canol, h.y. eistedd â sgarff dros ei lygaid. O flaen y person hwnnw, gosodwch glwstwr o agoriadau. Mae un person o'ch dewis yn ceisio dwyn y goriadau o'r canol heb i'r person sy'n "cysgu" ei g/chlywed. Os bydd y cysgwr yn clywed sŵn mae'n codi bys i bwyntio at gyfeiriad y sŵn. Os yw'n gywir mae person arall yn ceisio dwyn y 'goriadau. Os yw'r person yn llwyddo i ddwyn y goriadau, mae'n newid lle gyda'r cysgwr. Cadw sgôr o faint o bobl y mae pob person yn dal cyn colli'r goriadau, rhowch wobr fechan i'r person sydd wedi dal y nifer fwyaf.

Lluniau stormus

Dangoswch luniau o stormydd i'r plant. Cewch hyd i rai ar safle'r BBC drwy chwilio am luniau o stormydd. Trafodwch eu profiadau o fod mewn storm, beth a welwyd/glywyd a pha deimladau oedd ganddynt. Rhowch bapur a phethau lliwio i'r plant a gofynnwch iddynt dynnu llun sy'n cyfleu eu syniadau o "storm." Ar ôl 5 munud, edrychwch ar y lluniau a'u trafod. Anogwch y plant i siarad am eu teimladau o ofn ac ansicrwydd.

Esboniwch y byddwn yn clywed hanes gwir o'r Beibl heddiw pan oedd gan ffrindiau lesu ofn mawr mewn storm ac am yr hyn a wnaeth lesu.

Yr Hanes

Darllenwch yr hanes gan ddefnyddio Beibl Gweithgaredd y Plant neu un o'r llyfrau yn y Rhestr Adnoddau. Wedyn, defnyddiwch y syniad canlynol i atgyfnerthu a chymhwyso'r stori. Neu, defnyddiwch y syniad canlynol wrth i chi adrodd yr hanes yn eich geiriau eich hun.

Stori â chamgymeriadau

Darllenwch y stori eto â chamgymeriadau. Gofynnwch i'r plant i wrando'n ofalus ac i'ch cywiro pan fyddant yn clywed camgymeriad. Gallent droi eu bodiau i lawr pan fyddant yn meddwl eu bod wedi clywed camgymeriad.

'Un bore, aeth lesu ar ben ei hun i'r llyn a chamu i mewn i ganŵ.

Roedd lesu newydd ddeffro ac yn llawn egni.

Doedd neb arall o gwmpas.

Daeth i fwrw eira.

Roedd lesu yn gorfod padlo'n galed i ochr y llyn.

Roedd y disgyblion yn aros ar y lan amdano.
Gofynnodd Iesu iddynt "beth sydd i frecwast?"

Cymhwyso

Bydd angen 3 darn o bapur maint A4 arnoch. Wrth ofyn y cwestiynau canlynol i'r plant, tynnwch lun marc cwestiwn mawr yng nghanol y papurau, ac ysgrifennwch atebion y plant arnynt hefyd.

Cwestiwn 1. Sut oedd Iesu yn gallu tawelu'r storm? Esboniwch mai mab Duw yw Iesu ac mae ganddo'r un pŵer a nerth â Duw. Ydy'r plant yn gallu meddwl am bethau y mae Duw neu Iesu wedi eu gwneud sy'n dangos pa mor nerthol ydynt? Mae Iesu yn gallu ein helpu heddiw oherwydd ef yw Mab Duw gyda nerth a phŵer rhyfeddol.

Cwestiwn 2: Beth oedd ystyr cwestiwn Iesu i'r disgyblion - "Ble mae eich ffydd?" Roedd y disgyblion wedi bod gydag Iesu ac wedi gweld llawer o wyrthiau. Hefyd, roeddent wedi ei glywed yn siarad am Dduw. Ond eto, doedden nhw ddim wedi deall mai Iesu oedd mab Duw. Dyna pam yr oeddent yn ofnus ar ôl i'r storm beidio. Rydyn ni wedi clywed llawer am Iesu yn yr Ysgol Sul ond ydyn ni'n credu ynddo?

Cwestiwn 3: Fydden nhw wedi bod yn ofnus yng nghanol y storm fel y disgyblion? Esboniwch wrth y plant bod Iesu yn gallu ein helpu ymhob sefyllfa, sut bynnag y byddwn yn teimlo. Gallwn siarad gydag ef am bopeth sy'n mynd ymlaen yn ein bywydau ac mae e'n deall y cwbl. Dydy Iesu ddim bob amser yn stopio'r pethau anodd ond mae e'n gallu ein helpu i ymdopi ac i wynebu'r problem.

Adnod i'w dysgu

"Pwy yw hwn? Y mae hyd yn oed y gwynt a'r môr yn ufuddhau iddo."
(Marc 4:31)

Ffurf chwarae newid cadeiriau. Bydd angen chwaraewr CDd a'r adnod wedi'i chopio'n fawr.

Dangoswch yr adnod i'r plant, a'i darllen sawl gwaith. Rhwch gadeiriau mewn llinell neu o amgylch yr ystafell fel bod cadair i bob plentyn ond am un (gallwch ddefnyddio darnau o bapur newydd/cerdyn yn lle cadeiriau). Mae'r plant yn symud o gwmpas yr ystafell tra chwaraeir y gerddoriaeth. Wrth i'r gerddoriaeth dewi, maen nhw'n chwilio am gadair i eistedd/papur i sefyll arno. Bydd un plentyn heb gadair/papur. Mae'r plentyn hwnnw'n ceisio adrodd yr adnod yn ei chyfanrwydd. Os yw'n methu, caiff ofyn i blentyn arall am gymorth. Ar ôl adrodd yr adnod, mae'r gerddoriaeth yn ail gychwyn ac mae un gadair/darn o bapur yn cael ei thynnu ymaith. Felly, y tro nesaf, bydd dau blentyn heb gadair/papur ac yn adrodd yr adnod gyda'i gilydd. Eto, cânt ofyn am gymorth os bydd angen. Erbyn diwedd y gêm dylai pawb fedru adrodd yr adnod gyda'i gilydd.

Adnoddau Ychwanegol

Gwerslyfrau Golau ar y Gair

Iesu: Ffrind mewn Angen

Cyfres PowerPoints Beibl Bach i Blant

Cyflwyniad 39: Storm Ofnadwy

Llyfrau Stori

Storiau'r Anifeiliaid: Iesu'n tawelu'r Storm

